

Diweddariad canol blwyddyn cofrestr yr NMC

1 Ebrill - 30 Medi 2023



Croeso i'n hadroddiad canol blwyddyn ar gofrestr yr NMC, a'r hyn y mae'n ei ddweud wrthym am weithlu nyrsio a bydwreigiaeth y DU.

Ar adeg o alw cynyddol am iechyd a gofal, mae gan ein setiau data unigryw fewnwelediad amhrisiadwy y gobeithiwn y bydd arweinwyr a llunwyr polisi ar draws y sector yn ei ddefnyddio i wella eu strategaethau gweithlu. Rydym yn ystyried bod hyn yn hanfodol er budd y cyhoedd ehangach, y mae eu hiechyd a'u lles yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn grynodedb o'r newidiadau a'r tueddiadau mwyaf amlwg sy'n deillio o'r data diweddaraf. I'r rhai sy'n ceisio dealltwriaeth fwy gronynnog o'n cofrestr o'r holl nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio* sy'n gymwys i ymarfer, gallwch ddod o hyd i'r ddolen i'r tablau data cynhwysfawr ar dudalen pump.

Y darlun mawr

Mae ein cofrestr o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef **808,488**. Mae hyn yn galonogol o ystyried y pwysau sydd wedi cael cyhoeddusrwydd da ar wasanaethau iechyd a gofal ar adeg o alw cynyddol am ofal.

Mae hyn yn golygu bod **19,857** (2.5 y cant) yn fwy o weithwyr proffesiynol yn gymwys i ymarfer yn y DU nag oedd dim ond chwe mis yn ôl, a **114,874** (16.6 y cant) fwy na phum mlynedd yn ôl.

Mae nifer y nyrsys a bydwagedd cofrestredig bellach yn **748,528** a **42,974**, yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi cyrraedd carreg filltir o **fwy na 10,000 o gymdeithion nyrsio** - newyddion da i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn Lloegr, lle mae'r rôl gymharol newydd hon yn pontio'r bwlch rhwng cynorthwywyr iechyd a gofal, a nyrsys cofrestredig.

Y nifer uchaf erioed, sef

808,488

o weithwyr proffesiynol cofrestredig

Yn y chwe mis diwethaf misonths

Cynydd o

19,857 **+2.5%**

+2.4% **Nyrsiau**
748,528

+3.0% **Bydwagedd**
42,974

-1.5% **Cofrestredig**
6,426

+13.1% **Cymdeithion Nyrsio**
10,560

*Cyflwynwyd rôl y cydymaith nyrsio yn 2019. Gall cymdeithion nyrsio fyw yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru, ond dim ond yn Lloegr y gallant ymarfer yn y rôl hon.

Twf domestig cryf

Rydym wedi gweld nifer y gweithwyr proffesiynol a ymunodd â'r gofrestr am y tro cyntaf rhwng mis Ebrill a mis Medi wedi **mwya na dyblu** yn y pum mlynedd diwethaf - o **14,311** yn ymuno yn y chwe mis hyd at fis Medi 2018, i **30,103** yn yr un cyfnod eleni. Mae hyn yn cynnwys y nifer uchaf o ymunwyr sydd wedi'u haddysgu yn y DU a welsom yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol: **15,067**, sydd bron 25 y cant yn fwy nag yn yr un cyfnod y llynedd (12,104), a **35.7 y cant yn fwy** nag yn y chwe mis hyd at fis Medi 2018 (11,103).

Mae hyn yn dilyn y cynnydd a adroddwyd yn dda yn nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd ar raglenni nyrsio yn 2020, blwyddyn gyntaf pandemig Covid-19. Hefyd, ers 2020, mae'r NMC wedi egluro i sefydliadau addysg y gall gweithwyr proffesiynol newydd gymhwyso ymuno â'r gofrestr unwaith y byddant wedi gorffen eu rhaglenni ar ôl y nifer benodol o flynyddoedd academiaidd yn hytrach na blynyddoedd calendr. Mae hyn yn golygu y gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau elwa ar wybodaeth a sgiliau graddedigion cyn gynted â phosibl.

Mae **chwarter** (24.9 y cant) o'r rhai o'r DU a ymunodd ers mis Ebrill yn dod o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Mae hynny o'i gymharu â **23.6 y cant** y llynedd, ac **18.9 y cant** o'r rhai o'r DU a ymunodd yn y chwe mis hyd at fis Medi 2018, sy'n adlewyrchu amrywiaeth ethnig gynyddol y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth gartref.

Twf rhyngwladol yr un mor gryf

Nid yw cyflymder recriwtio rhyngwladol yn dangos unrhyw arwyddion o arafu. Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae bron cymaint o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol (**15,036**) wedi ymuno â'r gofrestr â'u cyfoedion a addysgwyd gartref.


Yn benodol, rydym wedi gweld naid pellach yn nifer yr ymunwyr a gafodd eu haddysg yn India - **7,223** yn y chwe mis diwethaf o gymharu â **4,849** yr adeg hon y llynedd, sy'n **gynydd o 49 y cant** ar gyfer y cyfnod. Mae hyn yn golygu bod India yn symud ymhellach ymlaen fel y ffynhonnell unigol fwyaf o recriwtio rhyngwladol i weithlu'r DU.

Fodd bynnag, mae ein data yn dangos rhai tueddiadau sy'n peri pryder yn nifer y bobl sy'n ymuno â chofrestr

Yn y chwe mis diwethaf, o gymharu â'r un cyfnod llynedd

+27.7%  **30,103**
a ymunodd â'r gofrestr

+1.1%  **13,308**
a adawodd y gofrestr

49.9%
o ymunwyr newydd a addysgwyd y tu allan i'r DU 

O fos Medi 2023:


78.1% a addysgwyd yn ddomestig 



21.3% a addysgwyd yn rhyngwladol 



Prif wledydd addysg a newid y tu allan i'r DU, ers mis Ebrill

1  **India**
55,429  +14.5%

2  **Philippines**
47,569  +4.6%

3  **Nigeria**
12,099  +13.7%

4  **Romania**
7,352  -0.03%

5  **Ghana**
4,708  +22.8%

y DU o wledydd 'rhestr goch' lle na chaniateir recriwtio gweithredol, gan gynnwys cynnydd cyfrannol sylweddol yn nifer y rhai sy'n ymuno o Ghana a Sambia, ynghyd â nifer cyson uchel o Nigeria.*

Fe fu cynnydd hefyd mewn ymunwyr bydwreigiaeth rhyngwladol. Mae hyn yn dilyn ymgyrch recriwtio ddiweddar gan y GIG yn Lloegr – y Rhaglen Recriwtio Rhyngwladol Mamolaeth. Ymunodd cyfanswm o **345 o fydwragedd rhyngwladol** yn ystod y chwe mis diwethaf o gymharu â **115** yn yr un cyfnod y llynedd a dim ond **27** yn y chwe mis hyd at fis Medi 2018. Mae cynyddu'r gweithlu bydwreigiaeth sydd ar gael yn gadarnhaol i fenywod, babanod a theuluoedd yn y DU, fodd bynnag y rhybudd yw bod gweithwyr proffesiynol o wledydd y 'rhestr goch' yn cyfrif am gyfran fawr o'r bydwragedd hyn sydd newydd gofrestru.

Unwaith eto, rydym yn galw ar bob cyflogwr ac asiantaeth ar draws iechedd a gofal i fod yn ymwybodol o godau ymarfer Llywodraeth y DU a'r Alban ar gyfer recriwtio personél iechedd a gofal cymdeithasol yn rhyngwladol. Mae pobl o bob rhan o'r byd am ddod i weithio yn y DU ond rhaid i hyn beidio â thanseilio systemau iechedd mewn gwledydd sydd â'r heriau mwyaf enbyd o ran y gweithlu.


Proffil newidiol y gofrestr

Ag ymunwyr yn y DU yn dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd, a chyda recriwtio cryf o wledydd fel India, Ynysoedd y Philipinau a Nigeria, mae proffil ethnig cofrestr yr NMC yn parhau i newid. Mae cyfran yr holl weithwyr proffesiynol cofrestredig o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig bellach wedi cyrraedd **29.1 y cant**, sydd **1.4 pwynt canran yn uwch** na dim ond chwe mis yn ôl (27.7 y cant), a 10 pwynt canran yn fwy na phum mlynedd yn ôl.


Rydym hefyd yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymuno â'n cofrestr yn rhyngwladol yn 40 oed neu'n iau. Dyma'n rhannol pam rydyn ni'n gweld newid araf ond cyson ym mhroffil oedran y gofrestr. Mae cyfanswm cyfran y gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol 21-40 oed bellach yn **43.5 y cant**, o gymharu â **42.7 y cant** chwe mis yn ôl, a **37.7 y cant** ym mis Medi 2018.

*Mae'r **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, a chodau ymarfer **Llywodraeth yr Alban** ar gyfer recriwtio rhyngwladol o bersonél iechedd a gofal cymdeithasol, yn gwahardd recriwtio gweithredol o wledydd 'rhestr goch' a ddynodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Nid yw'r codau'n atal gweithwyr iechedd unigol o wledydd 'rhestr goch' rhag ceisio cyflogaeth yn annibynnol, ond ni ddylai cyflogwyr fod yn recriwtio'n weithredol o'r gwledydd hynny.

Yn y chwe mis diwethaf, o gymharu â'r un cyfnod llynedd



Yn y chwe mis diwethaf



43 blynedd, 10 mis oedran gyfartalog gweithwyr proffesiynol

29.1% o'r gofrestr o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2018, **19.1%** o'r gofrestr yn dod o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

Mae arnom angen ffocws parhaus ar strategaethau cadw cynaliadwy

Er bod recriwtio i'r gofrestr yn rhedeg yn gyflym, mae ein data'n dangos cyfradd gadw gyson, gyda gostyngiad bach yn nifer yr ymadawyr dros y pum mlynedd diwethaf fel cyfran o'r gofrestr - o ddau y cant yn y chwe mis hyd at fis Medi 2018, i 1.7 y cant yn y chwe mis diwethaf.

Mae ffocws parhaus ar strategaethau cadw cynaliadwy ar draws iechyd a gofal yr un mor hanfodol i gynnal twf gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth medrus a phrofiadol.

Mae ein **hadroddiad Sbotolau ar Nyrsio a Bydwreigiaeth** 2023 yn amlygu manteision tiwtoriaeth a chymorth effeithiol i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ffynnu. Mae ymchwil yn dangos y gall tiwtoriaeth wael gael effaith negyddol ar ddiogelwch seicolegol gweithwyr proffesiynol a all arwain at bobl yn gadael y gofrestr yn gynharach. Felly mae cymorth gyrfa gynnar o ansawdd uchel yn hanfodol, fel y gall gweithwyr proffesiynol ffynnu a darparu'r gofal diogel, caredig ac effeithiol sydd ei angen ar y cyhoedd.

Defnyddio ein dirnadaeth i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd uchel

Rydym yn gobeithio y gall y mewnwelediadau allweddol hyn o'n cofrestr, ynghyd â'n **tablau data cynhwysfawr**, wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gynllunio'r gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.


Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella cywirdeb ein data ymhellach. Er ei bod yn ofynnol i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio roi cyfeiriad i ni yn y DU, rydym yn annog gweithwyr proffesiynol newydd, gan gynnwys ymunwyr sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol, i rannu'r wybodaeth hon â ni ar adeg cofrestru. Gellir gwneud hyn drwy **NMC Online**.




Andrea Sutcliffe,
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Rhanniad rhywedd y gofrestr

Gwryw



Hyd yr amser ar y gofrestr yn y chwe mis diwethaf



Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, **cysylltwch â ni**.

Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth a wnânt dros y cyhoedd a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.



Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**.



Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau addysg a proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwagedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn ni bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181

www.nmc.org.uk

 @nmcnews  @nmcuk

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth